# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 11 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
6 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Adroddiad ar Weithredu Amcan 1

**C6 Mick Bates:** A wnaiff Dirprwy Brif Weinidog Cymru ddatganiad ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar weithredu rhaglen Amcan 1? (OAQ8826)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Ar y cyd â phwyllgor monitro rhaglen Amcan 1, croesawaf yr adroddiad ac edrychaf ymlaen at ei weld yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

### Cyfleoedd Allforio

**C7 Glyn Davies:** Beth yw polisi Michael German ar gyfer gwneud busnesau Cymru yn fwy ymwybodol o'u cyfleoedd i allforio? (OAQ8749)

**Michael German:** Fel yr eglurais yn yr ateb a roddais i Christine Gwyther yn y Cyfarfod Llawn heddiw, yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i wella ein perfformiad masnachu rhyngwladol. Mae Masnach Cymru Ryngwladol yn hyrwyddo cyfleoedd allforio ymysg busnesau mewn amryw o wahanol ffyrdd, gan gynnwys seminarau, cyfarfodydd gyda chwmnïau unigol, safle walestrade.com ar y we, cylchlythyron a chynnwys erthyglau mewn papurau newydd a chylchgronau busnes perthnasol. Gwneir hyn oll yng nghyd-destun ei strategaeth farchnata. Mae'r strwythur rhanbarthol newydd yn cynnig ffocws ychwanegol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd masnachu rhyngwladol ac mae pob swyddfa ranbarthol yn cael ei lansio ar wahân i fusnesau a darparwyr gwasanaethau busnes eraill.

### Pwyso ar y Trysorlys am Gymorth Gweithredu

**C8 David Lloyd:** Pa gamau y mae Michael German wedi'u cymryd i sicrhau cydweithio effeithiol ag ardaloedd Amcan 1 eraill yn y DU i bwyso ar Drysorlys y DU am gymorth gweithredu ac amrywiadau ariannol eraill? (OAQ8808)

**Michael German:** Mae ein swyddogion mewn cysylltiad agos gyda'r ardaloedd Amcan 1 eraill yn y DU drwy gyfrwng cynghrair Amcan 1. Mae materion sydd yn ymwneud â chymorth gweithredu ac amrywiadau ariannol eraill eisoes wedi cael eu trafod. Yr wyf hefyd wedi bod yn siarad yn uniongyrchol gyda chynrychiolwyr yn ardaloedd Amcan 1 eraill y DU.

Yr wyf yn awyddus ein bod yn cydweithio er mwyn mynd â'r gwaith hwn rhagddo.

### Datblygu Strategaeth Gweithgynhyrchu

**C9 Helen Mary Jones:** Pa gamau penodol y mae Michael German wedi'u cymryd i ddatblygu strategaeth glir ac effeithiol ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru? (OAQ8804)

**Michael German:** Yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth a chyfres o drafodaethau yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd, mae strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Ein nod yw ei chyhoeddi ar ffurf papur ymgynghori yn dilyn trafodaeth a drefnwyd ar gyfer Cyfarfod Llawn ar 8 Chwefror. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, ac yng ngoleuni'r ymatebion a geir i'r papur, bydd y strategaeth yn cael ei chyhoeddi a bydd dyfodol gweithgynhyrchu yng Nghymru yn rhan ganolog ohoni.

**Trafod Dirywiad y Diwydiant Dur**

**C10 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Michael German wedi'u cael â gweinidogion perthnasol llywodraeth y DU am ddirywiad y diwydiant dur? (OAQ8777)

**Michael German:** Cynhaliwyd trafodaethau sylweddol a pharhaus rhwng y Cynulliad a Llywodraeth y DU ar lefel weinidogaethol a swyddogol ynghylch dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru.

**Cyfrifoldebau'r Gweinidog a'r Pwyllgor Monitro**

**C11 Lynne Neagle:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y berthynas rhwng ei gyfrifoldebau ef a chyfrifoldebau pwyllgor monitro rhaglen Amcan 1? (OAQ8844)

**Michael German:** Fel Gweinidog, yr wyf yn gyfrifol am ddatblygu economaidd, ac mae rhaglen Amcan 1 yn cynrychioli elfen bwysig mewn perthynas â hynny. Daw'r arolwg gwariant cyhoeddus ar gyfer holl raglenni'r cronfeydd strwythurol, gan gynnwys Amcan 1, o fewn prif gr^wp gwariant datblygu economaidd, sef yr adran yr wyf i'n gyfrifol amdani. Yn ôl y ddogfen rhaglennu sengl ar gyfer Amcan 1, gallaf i neu fy enwebai gadeirio pwyllgor monitro'r rhaglen, a gaiff ei gyfansoddi dan y ddogfen rhaglennu sengl. Yn ymarferol, Christine Chapman sydd yn cadeirio'r pwyllgor hwnnw.

Fel Gweinidog, yr wyf i'n atebol i'r Cynulliad am gamau gweithredu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ond mae'r swyddfa honno'n bennaf atebol i bwyllgor monitro'r rhaglen am y ffordd y mae'n rhedeg rhaglen Amcan 1. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod rheoli ar gyfer rhaglen Amcan 1 dan reoliadau perthnasol cyngor Ewrop. Mae'r awdurdod hwnnw wedi cael ei drosglwyddo i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sydd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen a chymeradwyo ceisiadau. Mae pwyllgor monitro'r rhaglen yn goruchwylio sut y rhoddir y rhaglen ar waith, yn ogystal â chytuno ar y meini prawf ar gyfer dethol prosiectau, adolygu cynnydd a chynghori Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar amryw o faterion.

**Dyfodol Cynhyrchu Dur**

**C12 William Graham:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y camau a gymerwyd i ddiogelu dyfodol cynhyrchu dur yng Nghymru? (OAQ8747)

**Michael German:** Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad a wnaeth Prif Weinidog Cymru yn y Siambr ar 19 Rhagfyr. Yr unig beth y gallaf ei ychwanegu ar hyn o bryd yw bod Corus wedi dweud wrthym nad oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi ei wneud eto. Mae trafodaethau'n parhau ar y lefel uchaf rhwng y cwmni, y Cynulliad a Llywodraeth y DU.

**Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru**

**C13 Alison Halford:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar broses gyfredol y cymorth dewisol rhanbarthol, gan roi sylw penodol i rôl ac aelodaeth Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru? (OAQ8817) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Rhestr Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig y DU

**C14 Geraint Davies:** Pa gynrychioliadau y mae Michael German wedi'u gwneud i Drysorlys y DU i sicrhau bod ardaloedd yng Nghymru'n cael eu cynnwys yn rhestr ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU, sydd yn cael ei llunio gan Lywodraeth San Steffan, ac a fydd yn elwa ar y mesurau penodol a gyhoeddwyd yn y datganiad rhag-gyllidebol? (OAQ8798)

**Michael German:** Mae swyddogion y Cynulliad yn cydweithio â swyddogion Trysorlys Ei Mawrhydi er mwyn llunio dogfen ymgynghorol ddrafft ac ar agweddau eraill o gynigion y cyfeiriwyd atynt yn natganiad y Canghellor.

## Cymorth Gweithredu

**C15 Dafydd Wigley:** Beth yw'r ymdrechion diweddaraf i ddwyn perswâd ar Drysorlys y DU i gyflwyno cymorth gweithredu ac amrywiadau ariannol eraill yng Nghymru? (OAQ8793)

**Michael German:** Cyflwynais adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar y cynnydd a wnaed gyda datblygu cynigion ar gyfer amrywiadau ariannol, a chyflwynais safbwyntiau rhagarweiniol y Comisiwn Ewropeaidd i'r Pwyllgor yn dilyn fy ymweliad â Brwsel. Yn ddiweddar, bu swyddogion yn ymweld â Gweriniaeth Iwerddon er mwyn dysgu o'r profiadau a gafwyd yn sgîl mabwysiadu mesurau o'r fath. Byddaf yn rhoi adroddiad mwy cynhwysfawr ar y datblygiadau sydd yn ymwneud â'r agwedd bwysig hon o'n cytundeb partneriaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Ionawr. Bydd hwnnw'n cynnwys cynigion ar gyfer paratoi'r sylfaen ar gyfer trafodaethau gyda'r Trysorlys.

## Ffurfio Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

**C16 Mick Bates:** Pa gamau sydd wedi'u gwneud i ffurfio strategaeth datblygu economaidd genedlaethol i Gymru? (OAQ8825)

**Michael German:** Yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth a chyfres o drafodaethau yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd, mae strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Ein nod yw ei chyhoeddi ar ffurf papur ymgynghori yn dilyn trafodaeth a drefnwyd ar gyfer Cyfarfod Llawn ar 8 Chwefror. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, ac yng ngoleuni'r ymatebion a geir i'r papur, caiff y strategaeth ei chyhoeddi.

## Gwella Twristiaeth ym Mhandy

**C17 David Davies:** Beth mae Michael German yn ei wneud i wella twristiaeth yn ardal Pandy, Sir Fynwy? (OAQ8732)

**Michael German:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb ysgrifenedig a roddais i David Davies ar 11 Rhagfyr 2000 ynghylch y mater hwn. Mae gan Sir Fynwy strategaeth datblygu economaidd, sydd yn cynnwys datblygu a hyrwyddo twristiaeth. Mae Sir Fynwy, ac ardal Pandy, yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Fwrdd Croeso Cymru i gefnogi cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Mae cynlluniau a chyfleoedd marchnata hefyd ar gael drwy gyfrwng gwaith hyrwyddo ar y cyd rhwng Bwrdd Croeso Cymru, cwmnïau twristiaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r diwydiant.

## Cyfrifoldebau'r Gweinidog a'r Pwyllgor Monitro

**C18 Ann Jones:** A wnaiff Michael German roi adroddiad ar y berthynas rhwng ei gyfrifoldebau ef a chyfrifoldebau pwyllgor monitro rhaglen Amcan 1? (OAQ8758) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Partneriaethau Busnes Lleol

**C19 Brian Hancock:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y partneriaethau busnes lleol yng Nghymru? (OAQ8796)***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Strategaeth Gyflogaeth**

**C20 Cynog Dafis:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y camau a gymerwyd i ddatblygu strategaeth gyflogaeth briodol ar gyfer economi Cymru? (OAQ8800) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hybu Datblygu Economaidd drwy ddefnyddio Mannau Cynnal Chwaraeon**

**C21 Glyn Davies:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar hybu datblygu economaidd yng Nghymru drwy ddefnyddio mannau cynnal chwaraeon? (OAQ8750)

**Michael German:** Gall mannau cynnal chwaraeon a digwyddiadau chwaraeon gynnig cyfleoedd economaidd a marchnata gwych i Gymru. Dyna pam mae'r Cynulliad, drwy ei gyrff noddedig yn bennaf, yn bwriadu hyrwyddo Cymru drwy gyfrwng y prif ddigwyddiadau chwaraeon a'r prif fannau cynnal chwaraeon.

Ymysg yr enghreifftiau diweddaraf mae Cwpan Rygbi'r Byd 1999, Rali Network Q a Chwpan yr FA, yn ogystal ag ymdrechion parhaus i ddenu Cwpan Ryder 2009 i Gymru.

**Sefydlu Grŵp Polisi Newydd o fewn Amcan 1**

**C22 Elin Jones:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y penderfyniad i sefydlu grŵp polisi newydd o fewn rhaglen Amcan 1? (OAQ8802) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Grantiau Buddsoddi Trefol ym Mro Morgannwg**

**C23 Owen John Thomas:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y modd y mae Awdurdod Datblygu Cymru'n gweithredu'r cynllun grantiau buddsoddi trefol mewn prosiectau ym Mro Morgannwg? (OAQ8753)

**Michael German:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru'n gweithredu'r cynllun grantiau buddsoddi trefol ledled Cymru, gan gynnwys ym Mro Morgannwg, fel cynllun cymorth a gymeradwywyd, yn unol â rheolau a therfynau cymorth gwladol y Comisiwn Ewropeaidd. Gan fod y rhan fwyaf o Fro Morgannwg yn wledig ei natur, mae'n debyg mai nifer fach o brosiectau a fydd yn derbyn cefnogaeth drwy grantiau buddsoddi trefol.

**Pwysigrwydd y Diwydiant Gweithgynhyrchu**

**C24 John Griffiths:** Pa drafodaethau diweddar y mae Michael German wedi'u cael â Gweinidogion Llywodraeth y DU ar bwysigrwydd y diwydiant gweithgynhyrchu i Gymru? (OAQ8744) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cymhorthion Gweithredu i Ardaloedd Amcan 1**

**C25 Peter Black:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ei drafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cymhorthion gweithredu ar gyfer ardaloedd Amcan 1? (OAQ8735)

**Michael German:** Ar 6 Rhagfyr 1999, cwrddais â'r Cyfarwyddwr Cymorth Gwladol yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Cystadleuaeth er mwyn dechrau ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cymhorthion gweithredu ar gyfer busnesau mewn ardaloedd Amcan 1. Yr oedd y cyfarfod yn gyfle i ymchwilio i ymateb tebygol y Comisiwn i achos a fyddai o bosibl yn cael ei baratoi a'i gyflwyno gan Lywodraeth y DU.

Wrth fynd â'r gwaith hwn rhagddo, gobeithiwn weithio'n agos gydag ardaloedd Amcan 1 eraill yn y DU.

**Twristiaeth yn Llangollen**

**C26 Karen Sinclair:** A yw Michael German wedi asesu effaith y cwymp ar Fwlch yr Oernant ar gyllid twristiaid yn Llangollen? (OAQ8741) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymateb i'r Adolygiad o Gymorth i Fusnesau**

**C27 Richard Edwards:** Pa gamau y mae Michael German wedi'u cymryd fel ymateb i'r adolygiad o'r cymorth i fusnesau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd? (OAQ8771)

**Michael German:** Ni allaf wneud penderfyniadau ar y cynigion a wnaed yn adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd hyd nes y byddwn wedi cynnal gwaith ymgynghori helaeth ar yr adroddiad. Bydd y broses ymgynghori yn cychwyn ddechrau mis Chwefror. Byddaf yn ymgynghori'n helaeth ar yr adroddiad.

**Gwahaniaethau rhwng Cyflogau Dynion a Menywod**

**C28 Richard Edwards:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar unrhyw wahaniaethau rhwng cyflogau dynion a menywod yng Nghymru? (OAQ8772)

**Michael German:** Mae cyflogau menywod sydd yn gweithio'n llawn amser yng Nghymru 87 y cant o werth cyflogau eu cymheiriaid gwrywaidd. Mae sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys y ffaith bod mwy o fenywod yn gweithio mewn swyddi cyflogau isel. Mae 60 y cant o fenywod yng Nghymru'n gweithio mewn dim ond 10 galwedigaeth.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i egwyddor cyflogau cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal ac mae'n llwyr gefnogi'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, sydd yn gweithredu cyflogau cyfartal fel un o'i amcanion strategol.

Mae ymdin â chyflogau isel ac anghydraddoldeb mewn cyfraddau talu rhwng dynion a menywod yn fater allweddol yn y broses o adfywio economaidd yng Nghymru.

Yn Chwefror 2001, disgwylir i'r tasglu cyflogau cyfartal gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion. Sefydlwyd y tasglu, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r cyhoedd, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, undebau llafur a sefydliadau academaidd, yn benodol er mwyn dileu'r bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod. Bydd canfyddiadau'r tasglu'n cyfrannu at yr wybodaeth sydd gennym eisoes ynghylch y materion sydd yn ymwneud ag anghydraddoldeb ym maes cyflogau. Yna bydd rhaid sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu, sydd yn ystyried amrywiadau a allai fod yn unigryw i Gymru.

**Polisi Darparu Cymorthdaliadau Cyhoeddus i Gwmnïau**

**C29 Helen Mary Jones:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar bolisi cyfredol Llywodraeth glymblaid Cymru ar ddarparu cymorthdaliadau cyhoeddus i gwmnïau? (OAQ8805) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Denu Mewnfuddsoddiant i Ardal Pandy**

**C30 David Davies:** Beth mae Michael German yn ei wneud i ddenu mewnfuddsoddiant i ardal Pandy yn Sir Fynwy? (OAQ8731)

**Michael German:** Mae isadran ryngwladol Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau i gymryd yr awenau er mwyn hyrwyddo holl ardaloedd Cymru i ddarpar fuddsoddwyr mewnol. Gall Tîm Cymru ddarparu amrywiaeth o wasanaethau di-dor i ddarpar fuddsoddwyr, o'r ymholiad cyntaf a'r cyngor ar eiddo, y lleoliad a materion sydd yn ymwneud â'r gweithlu, i gynghori darpar fuddsoddwyr ynghylch y cymorth grant sydd ar gael.

Er nad oes rhaglen wedi ei chynllunio'n benodol i gefnogi Pandy, yr wyf yn eich sicrhau bod pob ardal yng Nghymru a fyddai'n bodloni gofynion prosiect penodol yn cael eu cyflwyno i'r buddsoddwr fel lleoliadau posibl.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Cymorth gydag Ardrethi i Fusnesau'r Cymoedd

**C7 Lynne Neagle:** A yw'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi rhoi ystyriaeth bellach i ddarparu cymorth ychwanegol gyda'u hardrethi i fusnesau yn y cymoedd? (OAQ8842)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae ein papur ymgynghori ar gyllid llywodraeth leol, 'Symleiddio'r System', yn amlinellu cynigion am gynllun gostwng ardrethi ar gyfer busnesau bach. Yr oedd yn ceisio safbwyntiau ynghylch a ddylai'r cynllun fod yn fwy hael i fusnesau sydd wedi'u lleoli yn ardal Amcan 1 neu yn yr ardaloedd a fydd yn ffurfio rhan o'n rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'. Daeth yr ymgynghori i ben ar 31 Rhagfyr.

Bydd rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer cyflwyno'r cynllun. Yr wyf yn bwriadu gweithio'n agos gyda fy nghydweithwyr yn Llywodraeth y DU ar y gwaith o baratoi ac yna pasio'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr hyblygrwydd gorau posibl a fyddai'n ei alluogi i ddatblygu atebion sydd yn sensitif i anghenion busnesau bach yng Nghymru.

### Polisi Menter Cyllid Preifat (Addasrwydd i Gymru)

**C8 Janet Ryder:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i adolygu pa mor addas i Gymru yw'r egwyddorion y tu ôl i'r polisi menter cyllid preifat? (OAQ8833)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad eisoes wedi trafod datblygu'r fenter cyllid preifat yng Nghymru. Mae'r egwyddorion sydd dan sylw yn addas cyn belled â'u bod yn parhau i gynnig gwerth am arian.

### Llwyfannu Gemau Terfynol Cwpan yr FA (Dyrannu Arian Ychwanegol)

**C9 Nick Bourne:** Pa ystyriaeth mae Edwina Hart wedi'i rhoi i ddyrannu swm unigol, ychwanegol o arian i'r gyllideb diwylliant a chwaraeon er mwyn llwyfannu gemau terfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm yn 2001-02? (OAQ8809) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Tueddiadau yng Ngwariant Cyfalaf

**C10 Ann Jones:** Beth yw'r amcanestyniadau ar gyfer y tueddiadau yng ngwariant cyfalaf awdurdodau lleol Cymru dros y tair blynedd nesaf? (OAQ8780)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais fanylion dros dro am gefnogaeth ar gyfer gwariant llywodraeth leol ar 12 Rhagfyr. Gyda gwasanaethau sydd yn derbyn nawdd cyfalaf, mae'r taliad ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth gwerth £418.4 miliwn gan y Cynulliad ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol yn 2001-02.

Bydd y taliadau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2002-03 a 2003-04 yn dangos cynnydd o 11.1 y cant a 4.6 y cant, yn y drefn honno, dros y flwyddyn ariannol flaenorol.

### Adnoddau Cyfieithu ar y Pryd (Cynghorau Cymuned a Bwrdeistref Sirol)

**C11 William Graham:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ynghylch cyllido adnoddau cyfieithu ar y pryd i gynghorau cymuned a chynghorau bwrdeistref sirol? (OAQ8785)

**Edwina Hart:** Mater i'r cynghorau dan sylw yw hwn, gan ystyried eu cynllun iaith Gymraeg. Yr oedd cofnod eglurhaol ac ariannol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan, lle bo cynllun iaith Gymraeg yn peri costau ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus, 'bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau'r brif ffrwd'.

**Camau i wneud Cyllideb y Cynulliad yn Haws i'w Deall a'i Defnyddio**

**C12 John Griffiths:** Pa gamau a gymerir i wneud cyllideb y Cynulliad yn haws i'w deall a'i defnyddio? (OAQ8762)

**Edwina Hart:** Credaf fod y dull tryloyw yr wyf wedi ei fabwysiadu fel Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn sicrhau bod ein cyllidebau yn hawdd i'w deall a'u defnyddio. Croesawaf unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r drefn bresennol ac yr wyf yn arolygu'r materion hyn fy hun.

**Amddifadedd Gwledig (Arian Ychwanegol o Gyllideb y Cynulliad)**

**C13 Nick Bourne:** A fydd swm ychwanegol, unigol o arian ar gael o gyllideb y Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â phroblem amddifadedd gwledig? (OAQ8827)

**Edwina Hart:** Rhoddwyd sylw i broblem amddifadedd yn y rownd gyllidebol ddiweddar ac mae'r adnoddau a oedd ar gael eisoes wedi cael eu dyrannu.

**Tueddiadau yng Ngwariant Cyfalaf (Datganiad)**

**C14 Richard Edwards:** A all Edwina Hart wneud datganiad ar dueddiadau yn y gwariant cyfalaf a ragamcanir ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf? (OAQ8782)

**Edwina Hart:** Fe gyhoeddais i fanylion dros dro am gefnogaeth ar gyfer gwariant llywodraeth leol ar 12 Rhagfyr. Gyda gwasanaethau sydd yn derbyn nawdd cyfalaf, mae'r taliad ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth gwerth £418.4 miliwn gan y Cynulliad ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol yn 2001-02.

Bydd y taliadau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2002-03 a 2003-04 yn dangos cynnydd o 11.1 y cant a 4.6 y cant, yn y drefn honno, o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

**Swyddfeydd Cyrff Newydd a Noddir gan y Cynulliad (Cyllid a Lleoliad)**

**C15 Christine Gwyther:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar gyllid a lleoliad swyddfeydd cyrff newydd a noddir gan y Cynulliad? (OAQ8779)

**Edwina Hart:** Mae cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn derbyn eu nawdd drwy gymorth rhodd oherwydd ein bod eisiau iddynt weithredu o hyd braich. Bydd penderfynu ar leoliad felly'n fater i'r corff ei hun yn y lle cyntaf, gan ystyried gwerth am arian ac ystyriaethau tebyg eraill, yn ogystal â chanllawiau a geir gan y Cynulliad. Mae canllawiau'r Cynulliad yn cael eu harolygu ar hyn o bryd ac ystyrir sut y gallai annog cyrff noddedig newydd leoli eu swyddfeydd yn yr ardaloedd hynny ledled Cymru lle y byddent yn cwrdd ag anghenion eu grŵp cleientiaid yn y ffordd orau bosibl; gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd y mae TGCh yn eu cynnig wrth ystyried y buddiannau a ddeilliai o sefydlu swyddfeydd lleol; cydleoli a defnyddio adeiladau sydd eisoes yn bodoli o fewn ystad y Cynulliad.

Mae prif swyddfa tri o'r 13 corff cyhoeddus gweithredol a noddir gan y Cynulliad ar hyn o bryd wedi eu lleoli y tu allan i Gaerdydd. Mae gan lawer o'r cyrff eraill hefyd swyddfeydd neu safleoedd mewn lleoliadau o amgylch Cymru sydd yn adlewyrchu eu hanghenion busnes.

**Gwelliannau i Amddiffyniadau Llifogydd (Arian Ychwanegol)**

**C16 David Davies:** A yw Edwina Hart yn bwriadu darparu swm ychwanegol, unigol o gyllid i Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol Cymru er mwyn eu cynorthwyo i wella ein hen amddiffyniadau llifogydd? (OAQ8738)

**Edwina Hart:** O dan y targedau uchel a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori yng Ngorffennaf 2000, bydd disgwyl i Asiantaeth yr Amgylchedd sicrhau bod rhaglen ar waith ar gyfer archwilio amddiffyniadau llifogydd yn rheolaidd. Byddant yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny ac yn darparu asesiad o'r perygl o lifogydd. Darperir nawdd digonol i hwyluso unrhyw welliannau y gellir eu cyfiawnhau. Mae tystiolaeth y llifogydd a gafwyd yn ddiweddar yn dangos bod yr amddiffyniadau presennol wedi perfformio'n dda.

### Cymorth Ariannol i Adfywio Canol Trefi (Cymoedd De Cymru)

**C17 Lynne Neagle:** Pa gymorth ariannol a gaiff ei ddarparu er mwyn cynorthwyo adfywiad canol trefi yng nghymoedd de Cymru? (OAQ8841)

**Edwina Hart:** Mae amryw o fecanweithiau cymorth ariannol ar gael i gynorthwyo adfywiad canol trefi yng nghymoedd de Cymru.

Dan gynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, gallai partneriaethau ddefnyddio cronfeydd ar gyfer adfywio canol trefi. Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio'r gronfa adfywio lleol er mwyn targedu datblygiadau yng nghanol trefi. Gall nawdd o strategaethau tai awdurdodau lleol hefyd gyfrannu, drwy ail-wneud eiddo gwag yn adeiladau y gellir byw ynddynt.

Mae prif raglen adfywio Awdurdod Datblygu Cymru yn adeiladu ar bartneriaethau gydag awdurdodau lleol. Mae'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael yn cynnwys grantiau buddsoddi trefol, gwella trefi a gwelliannau amgylcheddol.

### Gwaith Adfywio Cymunedol a noddwyd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd

**C18 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gorff neu gyrff a etifeddodd y cylch gwaith ar gyfer y gwaith adfywio cymunedol a noddwyd cyn hynny gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd? (OAQ8839) ***Trosglwyddwyd i gael ei ateb gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.***

**Michael German:** Ar ôl i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000, torsglwyddwyd y cyfrifoldeb strategol ar gyfer adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ardal Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gynt, fel oedd yn briodol, i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Cafodd rhai asedau datblygu, a allai hefyd effeithio ar adfywio cymunedol, hefyd eu trosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru, ynghyd â'r cyfrifoldebau i dalu grantiau.

### Cyllid Cyhoeddus ar gyfer Cyfleoedd Cyfartal

**C19 Helen Mary Jones:** A wnaiff Edwina Hart amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau y glynir at ymrwymiad craidd y Cynulliad Cenedlaethol i gyfle cyfartal gan y cyrff hynny sydd yn derbyn cyllid cyhoeddus at y diben hwnnw? (OAQ8835)

**Edwina Hart:** Mae'r pedwar corff sydd ar hyn o bryd yn derbyn nawdd o'r gronfa datblygu prosiectau dros hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb. Mae'n un o ofynion y gronfa bod yr holl dderbynwyr yn sicrhau eu bod yn gweithredu polisi cyfle cyfartal fel cyflogwyr, rhai sydd yn defnyddio gwirfoddolwyr, ac fel darparwyr gwasanaethau, beth bynnag y bo'u hil, eu rhyw, eu crefydd, neu eu hanabledd.

### Cyfle Cyfartal i Leiafrifoedd Ethnig

**C20 Jocelyn Davies:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y prosesau a ddefnyddir i hybu cyfle cyfartal ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol? (OAQ8836)

**Edwina Hart:** Mae gan y Cynulliad ddyletswydd statudol i ymgymryd â'i waith a chyflawni ei fusnes gan barchu cyfle cyfartal. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi astudio nifer o faterion sydd yn effeithio ar gymunedau ethnig lleiafrifol ac mae wedi gwneud argymhellion, yn enwedig ynghylch hyfforddi staff ac Aelodau Cynulliad. Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn cynghori'r Pwyllgor a'r Cynulliad ar y materion hyn a sut gall y Cynulliad gwrdd ag anghenion lleiafrifoedd ethnig. Mae wedi cynnal archwiliad cydraddoldeb ac wedi cyflwyno adroddiad arno i'r Pwyllgor. Y cam nesaf yw hyrwyddo'r angen i ystyried materion cydraddoldeb, gan gynnwys anghenion lleiafrifoedd ethnig ym mholisïau'r Cynulliad.

**Ffioedd a Enillwyd gan Bartneriaeth Rogers (Adeilad Newydd y Cynulliad)**

**C21 Glyn Davies:** Yn dilyn fy nghwestiwn WAQ8110, a all Edwina Hart yn awr roi cyngor ar beth yw'r uchafswm y gall Partneriaeth Rogers ei ennill mewn ffioedd mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ8760)

**Edwina Hart:** Bydd y ffioedd sydd i'w talu i Bartneriaeth Richard Rogers yn cael eu capio yn seiliedig ar ffigur y byddwn yn cytuno arno unwaith y byddwn wedi cytuno ar y cynllun costau.

**Gwariant Llywodraeth Leol 2001-02**

**C22 Richard Edwards:** A all Edwina Hart nodi a yw'n debygol y bydd unrhyw gynnydd yng ngwariant llywodraeth leol yn 2001-02? (OAQ8781)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais fanylion rhagarweiniol am y cynnydd mewn cefnogaeth ar gyfer gwariant llywodraeth leol ar 12 Rhagfyr. Ar gyfer gwasanaethau y telir amdanynt drwy gyllid refeniw, byddai'r taliad cychwynnol yn galluogi cynghorau lleol a'r heddlu i gynyddu eu gwariant yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae fy nghynigion wedi eu seilio ar y ffaith y disgwylir gweld cynnydd o 5 y cant yng nghyllideb awdurdodau'r heddlu ac ychydig dros 5.5 y cant yng nghyllideb y cynghorau lleol. Mater i'r awdurdodau unigol fydd yr union benderfyniadau a wneir ynghylch cyllidebau.

Gyda golwg ar wariant cyfalaf, fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ8782.

**Prosiectau Menter Cyllid Preifat (Effaith ar Arian Cyhoeddus)**

**C23 Cynog Dafis:** Sut fydd Edwina Hart yn monitro effeithiau tymor hir prosiectau menter cyllid preifat ar arian cyhoeddus? (OAQ8838)

**Edwina Hart:** Mae dull gweithredu'r fenter cyllid preifat yng Nghymru yn cael ei arolygu ar hyn o bryd. Yn ystod yr arolygiad hwn, byddwn yn parhau i gyfrannu a chydweithredu gyda gwerthusiadau o'r buddiannau a'r effeithiau a achosir drwy ddefnyddio mentrau cyllid preifat.

**Arian Ychwanegol a dderbyniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl Cyhoeddiadau Gwariant**

**C24 Peter Black:** Pa arian ychwanegol a dderbyniodd y Cynulliad Cenedlaethol yn sgîl cyhoeddiadau gwariant Gweinidogion y DU ers mis Gorffennaf 2000? (OAQ8739)

**Edwina Hart:** Dengys y tabl isod yr ychwanegiadau a wnaed i gyllideb y Cynulliad ers canlyniad yr adolygiad o wariant ym mis Gorffennaf, a ddaeth yn sgîl cyhoeddiadau gwariant Gweinidogion y DU.

£,000

| | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|
| Addysg (gwaith atgyweirio cyfalaf) | 9,900 | | | |
| Addysg (e-ddysgu) | 295 | | | |
| Llifogydd | | 1,003 | 1,003 | 1,003 |
| Trethi wedi'u Cydgrynhoi | | | 1,700 | 1,700 |
| Cronfa Moderneiddio Cyfalaf (1) | | 600 | 24,800 | 33,100 |
| **CYFANSWM** | **10195** | **1,603** | **27,503** | **35,803** |

(1) Dyraniadau mynegol a ddaeth yn sgîl dyraniadau cychwynnol i adrannau yn Lloegr—ond ni fydd pob un o'r rhain wedi cael eu cyhoeddi eto.

**Cyflwyniadau i'r Trysorlys (Arian i Atgyweirio Ffyrdd)**

**C25 David Davies:** Pa gyflwyniadau mae Edwina Hart wedi eu gwneud i'r Trysorlys ynghylch sicrhau arian unigol ychwanegol i fynd i'r afael â'r llwyth o waith atgyweirio ffyrdd sydd yn cronni yng Nghymru? (OAQ8737)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau i'r Trysorlys. Mae unrhyw waith sydd yn cronni ar y rhwydwaith ffyrdd o fewn y targed. O ran ffyrdd yr awdurdod lleol, cyhoeddais fanylion am fy nghynigion ar gyfer sicrhau mwy o gefnogaeth ar gyfer gwariant llywodraeth leol ar 12 Rhagfyr. Mater i'r cynghorau unigol fydd penderfynu ar gyllidebau a blaenoriaethau gwariant, gan ystyried yr anghenion a'r blaenoriaethau lleol.

**Contractau Menter Cyllid Preifat**

**C26 Owen John Thomas:** A wnaiff Edwina Hart ddatgan a gytunwyd unrhyw gymalau adfachu mewn perthynas â chontractau menter cyllid preifat ar gyfer prosiectau yng Nghymru? (OAQ8763)

**Edwina Hart:** Trafodir prosiectau menter cyllid preifat yng Nghymru drwy gyfeirio at egwyddorion sefydledig a chanllawiau a gyhoeddwyd. Byddwn yn parhau i ddatblygu canllawiau newydd er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu rhoi ar waith.

**Cymunedau Ethnig Lleiafrifol (Meithrin Gallu)**

**C27 Gareth Jones:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar feithrin gallu o fewn cymunedau ethnig lleiafrifol? (OAQ8828)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn llwyr gydnabod manteison meithrin gallu a'r angen i ddarparu cymunedau difreintiedig gyda'r gallu i weithio'n llawn gyda'r Cynulliad. Yr wyf i felly wedi neilltuo nawdd ar gyfer sefydlu Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a fydd yn datblygu gallu cymunedau i bennu eu hanghenion eu hunain a sicrhau bod y Cynulliad yn eu hystyried wrth ddatblygu ei bolisïau a'i wasanaethau. Drwy gyfrwng cyfleoedd nawdd a phrosiectau parhaus eraill, mae'r Cynulliad hefyd wedi cefnogi mudiadau eraill sydd yn ymgymryd â gwaith datblygu cymunedau gyda'r cymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru (er enghraifft, Rhwydwaith Du y Sector Gwirfoddol a Mewn Cymru).

**Arian i fynd i'r afael ag Effeithiau Llifogydd a Thir Lithriadau**

**C28 William Graham:** A wnaiff Edwina Hart gadarnhau lefel yr arian sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau llifogydd a thir lithriadau a achoswyd gan y tywydd garw diweddar? (OAQ8784)

**Edwina Hart:** Dyma'r nawdd sydd ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol tuag at waith cyfalaf ar amddiffyniadau llifogydd:

| 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|
| £7,271,000 | £8,274,000 | £8,274,000 | £8,156,000 |

Yn ychwanegol at hyn, darperir adnoddau drwy gymorth refeniw cyffredinol tuag at arian a gaiff ei wario gan awdurdodau lleol ar gyfer eu gwaith amddiffyn llifogydd eu hunain ac wrth gwrdd â threthi Asiantaeth yr Amgylchedd. Nid yw'r adnoddau hyn wedi cael eu pridiannu.

Nid oes unrhyw nawdd arbennig ar gael i fynd i'r afael ag effeithiau tirlithriadau. Mae cymorth ariannol Bellwin ar gael i gynorthwyo awdurdodau lleol i gwrdd a gwariant mewn argyfwng, megis delio gyda chanlyniadau'r llifogydd diweddar, gan gynnwys clirio a gosod ategion i gynnal y tir dan dirlithriadau. Bydd yr holl hawliadau cymwys sydd yn uwch na throthwy Bellwin yn cael eu talu'n llawn yn sgîl y tywydd garw a gafwyd yn ddiweddar.

**Arian Ychwanegol ar gyfer Iechyd**

**C29 Kirsty Williams:** A yw Edwina Hart am ddarparu unrhyw arian ychwanegol ar gyfer iechyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol? (OAQ8846)

**Edwina Hart:** Nac ydw.

**Cynnydd yn y Dreth Gyngor**

**C30 Alison Halford:** Sut mae ystod y cynnydd yn y dreth gyngor a ragwelir ar gyfer 2001-02 yn cymharu â'r cyfartaledd o 3 y cant a nodwyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ8814)

**Edwina Hart:** Mae fy nhaliad refeniw cychwynnol ar gyfer llywodraeth leol yn ein galluogi i gwrdd â'r addewid a wnaed yn y cytundeb partneriaeth ar gynnydd yn nhreth y cyngor, fel a amlinellwyd yn fy nghyhoeddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ar 12 Rhagfyr.